Rhwydwaith Ymchwil Addysg Cymru

Welsh Education Research Network

Rhwydwaith Ymchwil Addysg Cymru

BYWYDAU GWAITH

Hanesion newid galwedigaethol yng Nghymru wedi datganoli

Tîm Ymchwil

University of Wales, Newport
Newport Business School

Prifysgol Cymru, Casnewydd
Ysgol Fusnes Casnewydd

Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

Aelodau o'r Tîm Ymchwil

- Caryn Cook, Ysgol Fusnes Prifysgol Cymru Casnewydd
- Lyn Daunton, Ysgol Fusnes Prifysgol Morgannwg
- Dr Lynne Gornall (Arweinydd y Prosiect), Prifysgol Morgannwg
- Yr Athro Sally Power (Mentor y Prosiect), Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd
- Dr Jane Salisbury, Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd
- Dr Brychan Thomas, Ysgol Fusnes Prifysgol Morgannwg

Cefnogir gan Velvet Projects Cyf.

Mae 'Bywydau Gwaith' yn dîm ymchwil chwe pherson a dynnwyd o 3 Sefydliad Addysg Uwch yn Ne Cymru. Daw'r fenter yn sgil dyfarnu bwrsariaeth RhYAC yn Rhagfyr 2007 i gynnal astudiaeth beilot bedwar mis. Mae'r cydweithrediad ymchwil rhyngddisgyblaethol hwn, a arweinir gan Brifysgol Morgannwg, yn arloesol yng nghyd-destun ymchwil Cyflogaeth AU – gan ddwyn ynghyd Gwyddorau Cymdeithasol, Polisi Addysgol, Adnoddau Dynol (AD), grwpiau Menter/ Gwybodaeth ac arbenigwyr Ysgolion Busnes, mewn gwaith a fydd yn sail ar gyfer prosiectau mwy yn y dyfodol.

Brîff yr ymchwil ac amcan y peilot yw datblygu set ddata fach o fywydau gwaith athrawon, a choethi technegau ymchwil a dulliau ymchwilio cydweithredol. Dyma gamau'r rhaglen a'r allbynnau ar gyfer 'Bywydau Gwaith' rhwng Ionawr ac Ebrill 2008 -

- Sefydlu a chreu tîm ymchwil cydweithredol a rhwydwaith cefnogi
- Datblygu adolygiad llenyddiaeth thematig cychwynnol
- Trefnu digwyddiad ymchwil i gasglu data'r peilot
- Cynnal gweithdai dadansoddi data ar gyfer y tîm er mwyn adnabod themâu ac archwilio materion
- Creu posteri, crynodebau a chyflwyniadau er mwyn dosbarthu'r gwaith
- Adeiladu ar RhYAC er mwyn datblygu'r maes ymchwil drwy ymchwil ychwanegol wedi'i gyllido

Mae'r tîm wedi cwrdd â'i holl dargedau ac mae'n archwilio cyfleoedd ar gyfer cydweithredu pellach. Mae cynllun Bwrsariaeth RhYAC, er ei fod yn anodd ac yn heriol, wedi bod yn llwyddiant mawr.

O safbwynt datblygu ymchwil, mae'r prosiect wedi galluogi dysgu rhyngbroffesiynol ac amlddisgyblaethol ar draws Addysg Uwch – gan rannu arbenigedd ac archwilio materion canfod, dadansoddi a rheoli hunaniaeth mewn methodoleg ymchwil. Mae'n adeiladu ar arbenigedd presennol yng Nghaerdydd (mewn polisi addysgol a chymdeithasol, rolau staff Addysg Bellach), ym Morgannwg (gyrfaoedd 'proffesiynol newydd' mewn Addysg Uwch a modelau arweiniad) ac yng Nghasnewydd (rheoli adnoddau dynol ac ymarfer proffesiynol).

Yng Nghymru, cyd-destun yr ymchwil yw polisi 'Y Wlad sy'n Dysgu' Llywodraeth y Cynulliad a'r strategaeth 'gydweithredu' ar gyfer addysg ac ymchwil. Os yw Cymru am gymryd ei lle llawn yn economi'r byd sydd wedi'i hadeiladu ar wybodaeth, mae'r tîm yn dadlau felly mai athrawon fel pobl broffesiynol reng flaen, yw adnodd allweddol a chyfalaf gwybodaeth y wlad. Mae deall eu 'bywydau gwaith' felly yn rhan o brosiect ehangach i amlygu cysylltiadau rhwng 'addysg a'r economi', a helpu i drawsnewid drwy ymchwil a datblygiad proffesiynol, y "Gymru fach, dlawd, glyfar" hon.

Am wybodaeth bellach cysylltwch â
knowledge@glam.ac.uk

Gweithdai ymchwil:
Glynis Bennett a Dr Gina Dolan,
Gwyddorau Iechyd, Prifysgol Morgannwg

Cymorth ymchwil:
Iheanyi Chuku Egbuta, Susy Rogers,
Mark Connolly, Siân Lewis

Poster: Reprograffeg ym Morgannwg

Mae Cynllun Bwrsariaeth RhYAC ar gyfer ymchwil cydweithredol, cyfoes mewn addysg wedi'i ariannu gan:

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
hefcw
Higher Education Funding Council for Wales

E·S·R·C Economic & Social Research Council

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government